Gwers: Edrych ar Deithio

Amcanion Dysgu
Dadansoddi tablau, graffiau a diagramau ar gyfer data ar wahân a data parhaus, a llunio casgliadau sy'n gysylltiedig â'r broblem sy'n cael ei thrafod; cysylltu data wedi'i grynhoi â'r cwestiynau sy'n cael eu harchwilio.

I ddechrau	**Disgyblion**	**Athro**
Gosod taflen taflunydd o'r graff gyda'r labeli wedi'u gorchuddio. Y nod yw bod y disgyblion yn dyfalu beth yw'r labeli. (Gweler fideo/adnoddau hyfforddi y DFES gyda CA3/Bl8 Mathemateg)	Trafod syniadau gyda chyfoedion a chyflwyno adborth i'r dosbarth. Rhoi eglurhad manwl o'u hatebion.	Defnyddio cwestiynau effeithiol er mwyn cael y disgyblion i weithio allan beth yw'r labeli. Dangos y labeli ac ysgrifennu ar linellau dyfalu.
Prif dasg	**Disgyblion**	**Athro**
Defnyddio'r daflen waith Teithio i'r Ysgol fel symbyliad. Darllen gyda'r disgyblion a chynnal sesiwn holi ac ateb am y ffynonellau data gwahanol.	Darllen drwy'r daflen waith fel dosbarth. Defnyddio'r daflen adnoddau i ateb y cwestiynau byr ar gyfer y ffynonellau data unigol ar lafar.	Helpu'r disgyblion gyda'u darllen. Hwyluso'r gwaith o ateb cwestiynau. Egluro unrhyw gamddealltwriaeth yn y data.
Sesiwn lawn	**Disgyblion**	**Athro**
Casglu syniadau at ei gilydd. Gall y disgyblion ddarllen eu hadroddiadau. A yw eraill yn cytuno/anghytuno â'u casgliadau?	Darllen/gwrando ar adroddiadau. Rhoi sylwadau ar gasgliadau a chymharu â'u gwaith eu hunain.	Dewis disgyblion i ddarllen adroddiadau ac annog disgyblion yn eu hesboniadau.

Canlyniadau
Bydd pob disgybl yn: Darllen taflenni, ysgrifennu adroddiad syml ar y data
Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn: Rhoi rhesymau dros labeli'r graff ac yn rhoi atebion i gwestiynau byr ar ddata
Bydd rhai disgyblion yn: Rhoi rhesymau clir dros labeli'r graff, llunio adroddiadau pendant yn seiliedig ar ddata, cyfleu eu canfyddiadau yn effeithiol i'r disgyblion eraill.

Adnoddau: Taflen taflunydd o graff trafnidiaeth gyhoeddus, gyda'r labeli wedi'u cuddio, taflen waith 'Teithio i'r Ysgol', taflunydd, dull o ysgrifennu adroddiad, mynediad i'r rhyngrwyd/ www.statistics.gov.uk neu www.censusatschool.ntu.ac.uk

Rheolaeth yn yr Ystafell Ddosbarth:
Bydd angen i'r holl ddisgyblion weld y taflunydd. Bydd gweithio mewn grwpiau yn galluogi'r disgyblion i drafod a chynllunio eu gwaith.

Geiriau allweddol	**Cysylltiadau Strategaeth CA3**	**Cysylltiadau Traws-Gwricwlaidd:**
Data, Gwybodaeth, Penderfyniadau, Cyfartaledd, Tablau, Siart Cylch, Graff Llinell, Dadansoddi, Adroddiad	Tud 268-275 Fframwaith Mathemateg	TGCh: Defnyddio'r Rhyngrwyd ar gyfer cynnal archwiliadau Hanes: Edrych ar ddulliau blaenorol y boblogaeth o deithio

Gwybodaeth Flaenorol
Beth yw graff llinell a sut y cânt eu labelu. Gwybodaeth am gyfartaleddau a rhywfaint o brofiad o ddadansoddi graffiau a thablau.

Asesiad o'r Dysgu
Trafodaeth ddosbarth/adborth o gwestiynau byr/adroddiad ysgrifenedig/gwerthusiad o syniadau disgyblion eraill

Gweithgaredd Ymestyn:
Defnyddio'r Rhyngrwyd, archwilio nodweddion gwledydd eraill ac ati. Ceisio defnyddio'r prosiect CensusAtSchool.

Syniadau Gwaith Cartref:
O siart cyfrif o'r dosbarth, plotio graff priodol ar sut mae eich dosbarth yn teithio i'r ysgol.

Syniadau ar gyfer cwestiynau:
Efallai yr hoffech awgrymu mai'r thema ar gyfer y wers yw teithio.
Beth sydd ar goll o'r graff hwn?
A oes gennych unrhyw syniad sut y dylid labelu'r echelinau?
Pam ydych chi'n dweud hynny? Faint o bwyntiau sydd wedi'u labelu ar yr echelin x? A yw hyn yn eich helpu wrth benderfynu beth yw label yr echelin?
Beth yw label yr echelin y? Awgrym: cyfrwch nifer y llinellau.
Beth allai'r 3 llinell eu cynrychioli? Cyfiawnhewch hyn. **Mae'r llinell goch ar gyfer bysiau/mae'r llinell borffor ar gyfer ceir/mae'r llinell werdd ar gyfer rheilffordd**
Rhowch deitl cyffredinol ar gyfer y siart.

Eich nodiadau/cwestiynau eich hun:

Nodiadau ar y wers/gwerthusiad
Ar ôl cyfnod hir o ddirywiad ar ôl y rhyfel, a barhaodd i mewn i ddechrau'r 1990au, sefydlogodd nifer y teithwyr sy'n teithio ar fysiau lleol tuag at ddiwedd y degawd. Yn 1999-2001, defnyddiodd pobl ym Mhrydain Fawr fysiau lleol ar gyfer 61 o rannau o deithiau y flwyddyn ar gyfartaledd (gweler Atodiad, Rhan 12: Arolwg Teithio Cenedlaethol). Pobl rhwng 16-24 oed sy'n defnyddio bysiau fwyaf, ac maent yn eu defnyddio ar gyfer 126 o rannau o deithiau bob blwyddyn, a phobl 70 oed a hŷn, sy'n eu defnyddio ar gyfer 76 o rannau o deithiau bob blwyddyn. Addysg a theithio i'r gwaith a busnes yw'r prif resymau dros deithiau pobl 16-24 oed, a siopa yw'r prif reswm dros deithiau pobl 70 oed a hŷn.

Crëwyd yr adnodd hwn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn www.statistics.gov.uk